# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB,PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 31
MAWRTH 2011

Ddydd Mawrth nesaf fe fydd hi'n Ddydd Mawrth Ynyd, neu fel y gelwir y diwrnod gan rai, Dydd Mawrth Crempog. Dyma'r diwrnod olaf cyn cychwyn Tymor y Grawys, sef y cyfnod o baratoi at yr ŵyl fwyaf yng nghalendr yr eglwys, gŵyl y Pasg, pan fyddwn yn dathlu atgyfodiad Crist. Mae'r Grawys yn draddodiadol wedi bod yn gyfnod o fyfyrdod ac aberth i Gristnogion, wrth iddynt ddwyn i gof y deugain niwrnod a dreuliodd Iesu yn yr anialwch yn ymprydio. Er mwyn ceisio uniaethu eu hunain â'r cyfnod hwn ym mywyd yr Iesu fe fydd rhai Cristnogion yn gwneud rhywbeth penodol yn ystod y Grawys. Slawer dydd byddai'r eglwys yn arfer annog y bobl i beidio â bwyta cig, pysgod, braster, wyau a chynnyrch llaeth. Fe aeth hi'n arferiad felly gan bobl i fwyta pancos ar ddydd Mawrth Ynyd, a chlirio'r pantri o'r nwyddau hyn. Mewn rhai mannau fel Rio de Janeiro a New Orleans, cynhelir gwyliau arbennig y 'Mardi Gras' i nodi'r dydd arbennig hwn ac ystyr yr enw 'Mardi Gras' yw dydd 'Mawrth braster' neu *'fat Tuesday'*.

Ac yna ar ddydd Mercher Lludw fe fydd Cristnogion sy'n perthyn i'r eglwysi Rhufeinig ac Anglicanaidd yn mynd i wasanaeth yn yr eglwys i gael ychydig o lwch wedi ei daenu ar eu talcennau i arwyddo eu bod yn barod i gyd-ddioddef gyda Christ ac i nodi'r ffaith mai llwch yw dechrau a diwedd pawb ohonom. Adlewyrchir y gwirionedd hwn yng ngeiriau emyn cyfarwydd Morgan Rhys, Llanfynydd: 'Diolch iddo byth am gofio llwch y llawr.'

I filiynau o Gristnogion ar draws y byd y mae Tymor y Grawys felly yn adeg i fyfyrio a gweddïo'n ddwys yn ogystal â chadw arferion fel clirio'r pantri ac ymprydio. Ond uwchben pob dim arall mae'n dymor sydd yn cynnig cyfle i bawb ohonom i afael o'r newydd yn ein perthynas ysbrydol â Duw. Ac un ffordd o wneud hynny yw ceisio cael profiad o'r 'anialwch' gydag Ef lle cawn gyfle i ganolbwyntio ar Dduw yn unig.

Un o'r pethau a wnaeth Duw wrth geisio adnewyddu ei berthynas â phobl Israel oedd eu harwain i'r anialwch er mwyn sicrhau eu sylw yn gyfangwbl heb fod unrhyw beth arall yn eu denu. Gwyddom fod yna lawer o bethau sydd yn mynnu ein sylw o ddydd i ddydd a go brin y medrwn ni deithio i'r anialwch yn llythrennol ond fe allwn neilltuo ychydig o amser bob dydd mewn defosiwn i ganolbwyntio ar Dduw. Meddai'r mynach Thomas Merton: "Mynnwch amser mewn unigedd am mai yno y cewch chi'r gymdeithas orau mewn bod; yno cewch gwmni Iesu".

Yno hefyd y cawn fodd i adnewyddu'r berthynas gyda Duw a fydd yn rhoi sail cadarn a sicr wrth i ni edrych ymlaen at ddathlu atgyfodiad Crist o'r bedd.

Pob bendith yn ystod Tymor y Grawys
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

**CALENDR MIS MAWRTH 2011**

| **Cyhoeddwr y Mis: Eirian Reynolds** | **Organydd y Mis : Mair Evans** | |
|---|---|---|
| 6 Mawrth 2.30 | Oedfa Gymun : Gweinidog | Bwrdd y Cymun:<br><br>Richard a Gwenan Davies |
| 13 Mawrth 10.30 | Oedfa Deuluol: Gweinidog gydag Efan Williams | |
| 20 Mawrth 2.30 | Oedfa Bregethu: Gweinidog | Gofal y Te: |
| 27 Mawrth 10.30 | Clwb Sul bach ac Oedfa Bregethu : Gweinidog | |
| 3 Ebrill 2.30 | Oedfa Gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun: |

**I'CH DYDDIADUR**

7 Mawrth: Cinio Cymorth Cristnogol yn Seion, Stryd y Popty 12.00-1.30yp
9 Mawrth: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
10 Mawrth: Astudiaeth y Grawys : Morfa am 7yh.
16 Mawrth: Cymdeithas Bethel am 2yp. Edrychwn ymlaen at groesawu'r Parchedig Dr David Easton, Eglwys San Paul.
17 Mawrth: Astudiaeth y Grawys yn Seion am 7yh.
19 Mawrth Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn yn y Ffarmers, Llanfihangel-y- Creuddyn. Enwau i Ceris erbyn Mawrth 13.
21 Mawrth: Cyfarfod Diaconiaid Horeb am 7yh
23 Mawrth: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
23 Mawrth: Pwyllgor Gweithredol Os Mêts am 7yh yn Festri'r Garn.
24 Mawrth: Astudiaeth y Grawys am 7yh. Lleoliad i'w gadarnhau.
28 Mawrth: Cwrdd Diaconiaid Bethel a Horeb ym Methel am 5.30
29 Mawrth: Cwrdd Gweddi misol yn festri Horeb 7.30
15 Ebrill : Cyngerdd i godi Arian i Gronfa Tirion Lewis yn Neuadd Penrhyn-coch yng nghwmni Côr Meibion Aberystwyth, Angharad Fychan, Elen Pencwm, Greg Roberts ac eraill.
12 Mehefin: Gwibdaith Sul y Pentecost. Awn i gynnal oedfa yn Soar-y- Mynydd. Croeso cynnes i bawb.

**LLOFFION**

**Dymuniadau gwresocaf** i Miss Megan Thomas a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed a bendith arni wrth iddi ymgartrefu ym Mhlas Cwmcynfelin.

**Dymuniadau gwresocaf** hefyd i Mrs Mona Edwards a ddathlodd ei phen-blwydd yn 80 mlwydd yn ddiweddar.

**Clwb Sul**: Os oes gan unrhyw un ddiddordeb i gynorthwyo gyda'r Clwb Sul fe fyddem yn falch iawn o glywed gennych. Cysylltwch â'r Gweinidog.

**Arddangosfeydd o Ddiddoreb Arbennig**: Cynhelir dwy arddangosfa yn Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth a fydd yn sicr o ddiddordeb inni:

26 Mawrth-14 Mai : Pregethwyr a Phulpudau yn yr Awditoriwm
26 Mawrth- 18 Mehefin: Capeli – arddangosfa ôl- syllol o waith Gwrando.